Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Polisi Preifatrwydd

Chwefror 2021

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

hyderus o
ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu gwybodaeth mewn print bras a braille, ynghyd â fformatau sain a Hawdd eu Deall, ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

# Cynnwys


Cyflwyniad 5

Pwy yw’r Rheolwr a'r Swyddog Diogelu Data a sut i gysylltu 5

Cymorth Preifatrwydd 5

Cyfrinachedd/diogelwch 6

Eich hawliau 6

Mynediad i'ch Data Personol 7

1. Ein llwyfannau ar-lein 8

    Ymweld â’n gwefan 8

    Casglu data a manyleb o ddiben 8

    Defnyddio cwcis 8

    Y cyfryngau cymdeithasol 9

    Gwybodaeth bersonol 10

2. Gweithio i’r Cyngor 11

    Ymgeisio am swyddi a Datganiadau o Ddiddordeb 11

    Gwybodaeth staff 12

3. Arian grant 17

    Arian y Loteri 17

    Amserlen 18

    Sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru 18

    Pwrpas a defnydd 19

    Amserlen 19

4. Noson Allan 20

    Gohebiaeth hyrwyddwr 20

    Eich data 20

    Pwrpas a defnydd 20

    'Beth sy'n digwydd' 20

| | | |
|---|---|---|
| | Gohebiaeth perfformwyr | 21 |
| | Eich Data | 21 |
| | Pwrpas a defnydd | 21 |
| 5. | Y Cynllun Casglu | 23 |
| | Orielau sy'n aelodau | 23 |
| | Unigolion preifat | 23 |
| 6. | Caffael - contractau a chyflenwyr | 25 |
| | Contractau | 25 |
| | Gohebiaeth cyflenwr | 26 |
| | Eich Data | 26 |
| | Pwrpas a defnydd | 26 |
| 7. | Ymchwil | 27 |
| | Rheoli datgelu ystadegol | 27 |
| | Mynediad at ddata | 27 |
| 8. | Cysylltiadau | 28 |
| | Casglu gwybodaeth | 28 |
| | Pwrpas a defnydd | 28 |
| | Amserlen | 28 |
| | Mynediad a hawliau optio allan | 29 |

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn elusen annibynnol, a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol. Ni yw sefydliad ariannu a datblygu Cymru i'r celfyddydau. Ein prif noddwr yw Llywodraeth Cymru. Rydym ni hefyd yn dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol ac yn codi arian ychwanegol lle gallwn o ffynonellau eraill yn y sector cyhoeddus a phreifat.

Rydym ni'n Rheolwr Data a Phrosesydd Data fel yn ôl Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol Prydain. Mae'r polisi hwn yn sefydlu sut mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn trin y wybodaeth:

- a gasglwn oddi wrthych drwy ein prosesau cais, gan gynnwys ceisiadau am grant, ymholiadau am grant ac ymgeisio am swyddi

- a ddysgwn amdanoch pan ymwelwch â'n gwefan

- a goladwn drwy'n trafodion gan gynnwys caffael, rheoli a gweinyddu ein staff a thaliadau i gyflenwyr a derbynwyr grant

- a gasglwn drwy unrhyw broses arall gan gynnwys cofrestru am ddigwyddiadau, rhestri o gysylltiadau, gweithgareddau ymchwilio a gohebiaeth

Cymeradwyir y polisi hwn gan y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain. Adolygwyd ef yn Ionawr 2021.

Mae amddiffyn preifatrwydd a data personol ein cleientiaid a'n hymwelwyr o'r pwys mwyaf inni. Mae diogelu eich preifatrwydd a'ch data personol yn agwedd bwysig ar y ffordd y crëwn, y trefnwn ac y cynhaliwn ein gweithgareddau ar-lein ac all-lein. Wrth drafod gwybodaeth bersonol, dim ond gwybodaeth a all ddangos pwy yw rhywun sydd dan sylw gennym (sef enw, cysylltiad personol neu leoliad, rhif adnabod).

Mae arferion penodol y polisi preifatrwydd hwn yn berthnasol i holl weithgareddau Cyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnwys Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Noson Allan.

## Pwy yw'r Rheolwr a'r Swyddog Diogelu Data a sut i gysylltu Cymorth Preifatrwydd

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ein datganiad preifatrwydd, sut y caiff eich data ei brosesu neu os ydych chi'n gofyn am gael gweld eich data personol, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data ar y manylion cyswllt isod:

Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Chydymffurfiaeth Llywodraethu@celf.cymru neu gallwch ysgrifennu atom yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL.

## Cyfrinachedd/diogelwch

Bwriadwn warchod ansawdd ac uniondeb eich gwybodaeth bersonol. Rhoesom dechnolegau a pholisïau diogelwch ar waith i ddiogelu data personol ein defnyddwyr sydd wedi'i storio gennym rhag mynd iddo heb awdurdod, ei ddefnyddio'n amhriodol, ei newid, ei ddinistrio'n anghyfreithlon neu'n ddamweiniol a'i golli'n ddamweiniol. I gyflawni hyn, defnyddiwn dechnoleg ddiogel wedi'i hamgryptio i ddiogelu ein gwybodaeth. Mae gennym bolisïau diweddar sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd am Ddiogelu Data, Diogelwch Gwybodaeth a Pharhad y Busnes (gan gynnwys Asesiad Risg) i gefnogi ein busnes a sicrhau bod ein staff yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelu data. Parhawn i adolygu a gwella ein gweithdrefnau diogelwch wrth i dechnoleg newydd ddod i'r fei.

Rhaid i staff y Cyngor ac unrhyw un a allai brosesu data ar ein rhan ac sydd â mynediad at ddata personol barchu preifatrwydd a chyfrinacholdeb data personol ein hymwelwyr, ein cleientiaid a'r rhai sy'n ymwneud â'n hymchwil gan gynnwys cymryd rhan mewn arolygon.

Gweithredwn gamau i ddiogelu eich data personol rhag cael ei ddatgelu i sefydliadau eraill heb awdurdod ac eithrio os yw gwneud hynny'n ofynnol fel rhan o reoli parhaus neu ofynion archwilio, dan y gyfraith neu reoleiddiad arall. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddiogelu'r arian cyhoeddus ac felly gallem ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir at ddiben atal a chanfod twyll. Gallem hefyd rannu gwybodaeth â chyrff eraill sy'n gyfrifol am weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn. Cynnwys hyn gasglu a rhannu data gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru o ran ei waith archwilio a'i astudiaethau. Gweithredwn y broses yn gyfreithlon, yn gymesur ac yn ddiogel.

Mae rhagor o wybodaeth am sut y rheolwn ddata personol ar gyfer pob un o'r meysydd canlynol yng ngweddill y ddogfen neu drwy'r dolenni isod.

1. Ein llwyfannau ar-lein
2. Gweithio i'r Cyngor
3. Arian grant
4. Noson Allan
5. Cynllun Casglu
6. Contractau caffael a chyflenwyr
7. Ymchwil
8. Cysylltiadau, gan gynnwys cylchlythyrau a chofrestru am ddigwyddiadau

## Eich hawliau

Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol Prydain mae gennych nifer o hawliau o ran eich data personol. Mae gennych hawl i ofyn inni am gael gweld, cywiro neu, mewn rhai amgylchiadau, ddileu eich data personol, a hawl i gyfyngu ar brosesu neu wrthwynebu ei brosesu a'r hawl i drosglwyddo eich data.

Os rhoesoch ganiatâd inni brosesu eich data, mae gennych yr hawl (mewn amgylchiadau penodol) i dynnu'n ôl y caniatâd hwnnw ar unrhyw adeg heblaw bod yn rhaid inni, dan gontract neu'r gyfraith, gadw'r data. Ni fydd tynnu eich cydsyniad yn effeithio ar

gyfreithlondeb y prosesu a ddigwyddodd cyn ichi dynnu eich caniatâd. Gallwch dynnu eich cydsyniad drwy ddatdanysgrifio o’r rhestr bostio neu drwy gysylltu â llywodraethu@celf.cymru

Mewn achosion lle nad oes rhaid inni gadw data oherwydd contract neu’r gyfraith, dilëwn y data cyn gynted ag y bo modd ac mewn cyfnod o 28 dydd o leiaf.

Mae gennych yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth os credwch nad ydym wedi cydymffurfio â gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol Prydain o ran eich data personol.

## Mynediad i'ch Data Personol

Gallwch ofyn inni a ydym yn cadw data personol amdanoch, a gallwch hefyd ofyn am gopi o'r data personol. Cyn anfon unrhyw ddata personol atoch, byddwn ni’n cadarnhau pwy ydych chi ac efallai gofyn ichi roi rhagor o wybodaeth i'n helpu. Os na allwn gadarnhau pwy ydych, rydym ni’n cadw'r hawl i wrthod anfon y data personol atoch. Ni fyddwn yn codi unrhyw daliadau am geisiadau o'r fath, oni bai bod y ceisiadau’n digwydd dro ar ôl tro ac yn cael eu hystyried yn ormodol.

Byddwn ni’n gwneud pob ymdrech i ymateb yn amserol i'ch ceisiadau (mewn 28 diwrnod) neu i gywiro gwallau yn eich gwybodaeth bersonol. Ar unrhyw adeg, gallwch ofyn inni ddileu neu gywiro eich gwybodaeth bersonol yn ein cofnodion. Ar gyfer ceisiadau o'r fath, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data

# 1. Ein llwyfannau ar-lein

## Ymweld â'n gwefan

Rydym yn rhagweithiol o ran preifatrwydd ein defnyddwyr a sicrhawn y cymerir y camau angenrheidiol i ddiogelu preifatrwydd yr ymwelwyr â'n gwefan a'n defnyddwyr drwy gydol eu hymweliad. Mae ein gwefan yn cydymffurfio â holl gyfreithiau a gofynion preifatrwydd defnyddwyr ym Mhrydain.

## Casglu data a manyleb o ddiben

Yn gyffredinol gallwch bori drwy'n gwefan heb ddatgelu unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch eich hun. Bydd ein gwefan yn cynnwys dolenni i wefannau ac adnoddau allanol fel rhan o'n busnes arferol. Maent yn cynnwys straeon newyddion a dolenni i wefannau eraill fel rhan o'r wybodaeth ar ein gwefan (er enghraifft, astudiaethau achos). Gall defnyddio'r dolenni hynny ganiatáu i bobl eraill gasglu neu rannu eich gwybodaeth bersonol. Gan nad oes gennym unrhyw reolaeth dros sut y gall y fath bobl eraill gasglu a rhannu eich gwybodaeth, nid ydym yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am eu defnydd o'ch gwybodaeth.

Drwy'n gwefan gallwch bostio gwybodaeth a fydd ar gael i eraill, os cymeradwywn hynny. Pan wnewch hynny, gall ymwelwyr eraill gasglu'r data a gyflwynasoch.

Nid ydym yn cofnodi'n awtomatig ddata personol na chysylltu'n awtomatig wybodaeth a gofnodir drwy ddulliau eraill â data personol unigolion penodol.

Defnyddiwn gwcis i storio data personol. Ni chysylltwn wybodaeth amhersonol a storir mewn cwcis â data personol unigolion penodol. Rhown ragor o wybodaeth am gwcis yn yr adran nesaf.

Casglwn ddata personol a wirfoddolwch wrth ddefnyddio ein gwasanaethau. Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol, coledir a phrosesir y data hwn ar sail gydsyniad.

Ni chasglwn wybodaeth am ein hymwelwyr oddi wrth ffynonellau eraill, megis cofnodion neu gyrff cyhoeddus neu sefydliadau preifat.

Gallem gasglu a defnyddio'r data personol ar gyfer y diben ychwanegol o boblogi'r rhestri postio. Os ydym am ddefnyddio eich data personol at ddiben newydd, rydym yn cynnig ichi ffordd o gydsynio â'r diben newydd hwn drwy nodi hynny mewn blwch ar y wefan lle y cesglir data personol. Gallech dynnu'r caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg gan ddatdanysgrifio drwy gysylltu â'n gwefan neu e-bostio llywodraethu@celf.cymru

## Defnyddio cwcis Beth yw cwcis?

Cwcis yw ffeiliau bychain a gedwir ar yriant caled cyfrifiadur y defnyddiwr sy'n olrhain, arbed a storio gwybodaeth am ymwneud y defnyddiwr â'r wefan. Drwyddynt gall y wefan, drwy ei gweinydd, roi i'r defnyddwyr brofiad wedi'i deilwra o'r wefan.

## Pam y defnyddiwn gwcis?

Weithiau y casglwn wybodaeth ddienw oddi wrth yr ymweliadau â'n gwefan i ddarparu gwasanaeth gwell. Er enghraifft, efallai y cadwn lygad ar y gwefannau y daw pobl ohonynt neu y mesurwn weithgarwch ymwelwyr ar ein gwefan ni. Ond gwnawn hynny mewn ffyrdd sy'n cadw'r wybodaeth honno’n ddienw. Defnyddiwn y wybodaeth a gasglwn i fesuro nifer yr ymwelwyr i wahanol ardaloedd o’n gwefan, ac i'n helpu i wneud ein gwefan yn fwy defnyddiol i ymwelwyr. Dadansoddwn y cofnodion hyn o dro i dro i fesuro’r traffig drwy’n gweinyddion, nifer y tudalennau yr ymwelwyd â hwy a lefel y galw am dudalennau a phynciau o ddiddordeb. Gellir cadw’r cofnodion hyn am gyfnod amhenodol a’u defnyddio ar unrhyw adeg ac mewn unrhyw ffordd i atal achosion o dorri diogelwch a sicrhau cywirdeb y data sydd ar ein gweinyddion.

Gallem ddefnyddio cwcis i gofio gosodiadau personol a ddewisasoch ar ein gwefan. Ni ddefnyddiwn gwcis mewn unrhyw gyd-destun arall i gasglu gwybodaeth sy'n datgelu pwy ydych. Caiff y rhan fwyaf o'r cwcis a osodwn eu dileu'n awtomatig o’ch cyfrifiadur pan ewch o’n gwefan neu’n fuan wedyn.

Defnyddia ein gwefan feddalwedd olrhain i fonitro ymwelwyr inni ddeall yn well sut y defnyddir ein gwefan. Google Analytics sy’n darparu’r feddalwedd sy'n defnyddio cwcis i olrhain y defnydd gan ymwelwyr. Bydd y feddalwedd yn cadw cwci yn yriant caled eich cyfrifiadur er mwyn olrhain a monitro eich defnydd o'r wefan, ond ni fydd yn storio, arbed neu gasglu gwybodaeth bersonol.

Pe hoffai defnyddwyr wrthod defnyddio ac arbed cwcis o'n gwefan ar eu gyriant caled, dylent gymryd y camau angenrheidiol i’w hatal yng ngosodiadau diogelwch eu porwr i rwystro pob cwci.

## Y cyfryngau cymdeithasol

Rydym ni’n derbyn ystadegau cyfunol a dienw am bobl sy’n ymweld â thudalennau’r cyfryngau cymdeithasol drwy:

- Facebook Insights (https://en-gb.facebook.com/policy)
- Twitter Analytics (https://twitter.com/en/privacy)
- Instagram (https://help.instagram.com/402411646841720)
- Sprout Social (https://sproutsocial.com/privacy-policy)
- Hootsuite (https://hootsuite.com/en-gb/legal/privacy)
- Cision / Gorkana (https://www.gorkana.com/about-gorkana/privacy-policy)

Mae’r rhain yn fodd inni ddeall sut mae pobl yn defnyddio ein cynnwys.

## Gwybodaeth bersonol

Wrth ddefnyddio ein gwefan, cymwysiadau ein meddalwedd neu'n gwasanaethau, efallai y bydd yn rhaid ichi ddarparu gwybodaeth bersonol (enw, cyfeiriad, e-bost, manylion cyfrif, ac ati). Defnyddiwn y wybodaeth hon i weinyddu ein gwefan, ein ceisiadau, cronfeydd data ein cleientiaid a'n deunydd marchnata. Sicrhawn y cedwir unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir yn ddiogel yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a aeth yn gyfraith gwlad ym Mhrydain yn Neddf Amddiffyn Data 2018. Ymhellach, drwy ddarparu manylion ffôn ac e-bost, rhowch ganiatâd inni gysylltu â chi drwy'r dulliau hyn. Mae gennych yr hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol amdanoch sydd gennym a hynny ar unrhyw adeg. Os hoffech dderbyn copi felly, neu am gael eich tynnu o'n cronfa ddata, datdanysgrifiwch neu cysylltwch â ni: llywodraethu@celf.cymru

Mae cofrestru ar ein gwefan yn ddewisol. Os dewiswch i beidio â chofrestru neu ddarparu gwybodaeth bersonol, gallwch o hyd ddefnyddio'n gwefan.

# 2. Gweithio i'r Cyngor

## Ymgeisio am swyddi a Datganiadau o Ddiddordeb

Fel rhan o unrhyw broses recriwtio, byddwn ni'n casglu a phrosesu data personol sy'n ymwneud ag ymgeiswyr am swyddi a Datganiadau o Ddiddordeb a gawn mewn ymateb i gyfleoedd a hysbysebir. Rydym ni wedi ymrwymo i fod yn dryloyw ynghylch sut rydym ni'n casglu a defnyddio'r data a chyflawni ein rhwymedigaethau diogelu data yn unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Deddf Hawliau Dynol Prydain 1998, a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol Prydain. Dim ond at ddiben o ymdrin â'ch cais neu fodloni gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol y defnyddir eich gwybodaeth yn y broses recriwtio.

Lle bynnag bo hynny'n bosibl, gwna ymgeiswyr gais am swydd drwy lenwi'r pro fforma safonol. Gellid addasu'r broses hon mewn rhai achosion i fynd i'r afael ag unrhyw ofynion arbennig sydd gan ymgeisydd. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, cesglir yr un manylion ag a wneir ar gyfer pob ymgeisydd.

- Manylion personol – enw, cyfeiriad, manylion cyswllt, dewis iaith a hunanasesiad hyfedredd ieithyddol
- Perthynas ag unrhyw aelod neu gyflogai o'r Cyngor
- Statws cyfreithiol o ran gweithio ym Mhrydain
- Collfarnau troseddol heb eu gwario
- Addysg, cymwysterau proffesiynol a hyfforddiant gan gynnwys aelodaeth o unrhyw gyrff proffesiynol
- Profiad a chyflawniadau o ran y wybodaeth, profiad a nodweddion penodedig am y swydd
- Manylion cyflogaeth bresennol a blaenorol – gan gynnwys enw'r cyflogwr, ei gyfeiriad, eich swydd yno, y rheswm ichi ymadael a'ch cyflog terfynol
- Geirdaon - enw, cyfeiriad, manylion cyswllt a dewis iaith ar gyfer 2 ganolwr
- Holiadur monitro cydraddoldeb - a gedwir ar wahân gan Adnoddau Dynol yn unol â'r cyfnodau cadw sydd wedi'u hamlinellu isod ac nas rhennir gyda'r panel cyfweld

Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol Prydain coledir a phrosesir y data at ddiben llunio neu gyflawni contract â chi.

Mewn rhai achosion, rhaid inni brosesu data i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n

rhwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n ofynnol i ni wirio cymhwysedd ymgeisydd llwyddiannus i weithio ym Mhrydain neu statws treth cyn i gyflogaeth ddechrau.

Mae prosesu data gan ymgeiswyr am swyddi yn ein galluogi i reoli'r broses recriwtio, asesu a chadarnhau addasrwydd ymgeisydd ar gyfer cyflogaeth a phenderfynu i bwy i gynnig swydd. Efallai y bydd angen inni hefyd brosesu data gan ymgeiswyr am swyddi i ymateb i hawliadau cyfreithiol ac amddiffyn yn eu herbyn. Lle y gallwn ddibynnu ar fuddiannau cyfreithlon fel rheswm dros brosesu data, rydym ni wedi ystyried a yw'r buddiannau hynny'n cael eu diystyru gan hawliau a rhyddid ymgeiswyr neu weithwyr ac rydym wedi dod i'r casgliad nad ydynt.

Rydym ni'n casglu'r wybodaeth mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, gellid cynnwys data mewn ffurflenni cais, CVau neu lythyrau ymgeisio, eich pasbort neu ddogfennau adnabod eraill, neu eu casglu drwy gyfweliadau neu fathau eraill o asesiad, gan gynnwys profion a holiaduron ar-lein.

Byddwn ni hefyd yn casglu data personol amdanoch gan bobl eraill, megis tystlythyrau gan gyn-gyflogwyr, gwybodaeth gan ddarparwyr gwiriadau cefndir cyflogaeth a gwybodaeth o wiriadau cofnodion y Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd (gweler ein polisi i gael rhagor o wybodaeth am hyn). Byddwn ni'n ceisio gwybodaeth gan bobl eraill dim ond unwaith y bydd cynnig swydd amodol wedi'i wneud ichi a byddwn ni'n eich hysbysu ein bod yn gwneud hynny.

## Am ba hyd y cadwn eich data?

Storiwn ddata mewn gwahanol leoedd gan gynnwys yn eich cais, yn system rheoli Adnoddau Dynol a systemau TG eraill (gan gynnwys e-bost).

Cedwir ffurflenni cais aflwyddiannus a'r geirdaon cysylltiedig â nhw (os gofynnir amdanynt) am 12 mis rhag ofn y cwyd hawliadau, a dinistrir hwy wedyn, oni bai ichi ofyn yn benodol iddynt gael eu dinistrio yn gynharach. Trinnir pob gwybodaeth yn gyfrinachol a dim ond y rhai sy'n cymryd rhan yn y broses benodi a recriwtio fydd yn ei gweld. Dinistrir unrhyw gopïau a wneir ar ôl y cyfweliad.

Os llwydda'r ymgeisydd, cedwir y cais yn electronig yn ffeil bersonél yr adran Adnoddau Dynol. Ni ddaliwn afael ar unrhyw gopïau eraill. Dinistrir nodiadau a wneir adeg tynnu rhestr fer ar ôl gorffen y cyfweliadau. Yr unig wybodaeth a gedwir ar ôl y cyfweliad fydd y rheswm pam na phenodwyd ymgeisydd. Croeso i'r rhai y cyfwelwyd â hwy gysylltu â'r adran Adnoddau Dynol i ofyn am adborth ynghylch eu cyfweliad. Felly cedwir y wybodaeth hon am 12 mis a'i dinistrio wedyn gyda'r cais.

## Gwybodaeth staff

Mae'r adran hefyd yn berthnasol i Gydweithwyr Celfyddydol ac Asiantau Creadigol.

A ninnau'n gyflogwr ichi neu'n gorff sy'n cynnig contract, rhaid i'r Cyngor gasglu, cadw a

phrosesu gwybodaeth amdanoch at ddibenion cyflogaeth arferol. Defnyddir y wybodaeth a gadwn ac a broseswn at ein dibenion rheoli a gweinyddu ac felly arferwn yr un mesurau i atal mynediad heb awdurdod. Cadwn a defnyddiwn y wybodaeth i redeg y busnes a rheoli ein perthynas â chi'n effeithiol, yn gyfreithlon ac yn briodol, yn ystod y broses recriwtio, eich cyfnod o weithio gyda ni, adeg pan ddaw eich cyflogaeth i ben ac ar ôl ichi ymadael. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r wybodaeth i'n galluogi i gydymffurfio:

- â'r contract cyflogaeth
- ag unrhyw ofynion cyfreithiol
- â gwireddu unrhyw fuddiannau cyfreithlon y Cyngor
- ag amddiffyn ein sefyllfa gyfreithiol os bydd achos cyfreithiol

Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol Prydain caiff y data hwn ei goladu a'i brosesu ar sail cyflawni neu lunio contract.

Os na ddarperwch y data hwn, efallai y methwn mewn rhai amgylchiadau â chydymffurfio â'n rhwymedigaethau a rhown wybod ichi am oblygiadau eich penderfyniad.

Pan broseswn ddata gyda'ch caniatâd, mae gennych yr hawl i dynnu'n ôl y caniatâd hwnnw ar unrhyw adeg. Gallwch wneud hyn drwy gysylltu ag adnoddaudynol@celf.cymru os ydych chi'n aelod o'n staff neu Llywodraethu@celf.cymru os ydych chi'n Gydweithiwr Celfyddydol, Asiant Creadigol neu rywun dan gontract uniongyrchol â ni.

Yn ein gwaith beunyddiol, weithiau efallai y bydd rhaid inni brosesu eich data i hyrwyddo unrhyw fuddiannau busnes cyfreithlon, er enghraifft i atal twyll, at ddibenion gweinyddol neu adrodd am droseddau posibl. Dyma natur y fath fuddiannau o ran cyflogaeth a recriwtio sy'n cynnwys:

- cynnal y berthynas gyflogaeth â chontract
- recriwtio a phrosesau ceisiadau am swyddi'n fewnol
- gweinyddu'r gyflogres/IR35
- gweinyddu pensiynau (lle bo'n berthnasol)
- gofynion adrodd statudol megis archwiliadau a gynhelir gan Gyllid a Thollau EM
- atal twyll
- adrodd am droseddau posibl

Ni phroseswn byth eich data ar sail buddiannau busnes dilys lle bo'ch buddiannau neu'ch hawliau sylfaenol chi, sy'n mynnu amddiffyn eich data, yn drech na hwy.

Bydd llawer o'r wybodaeth sydd gennym yn wybodaeth yr ydych wedi'i darparu, ond efallai y bydd ychydig yn dod o ffynonellau mewnol eraill, megis eich rheolwr neu gyswllt arweiniol yn y sefydliad neu, mewn rhai achosion, o ffynonellau allanol, megis canolwyr.

Dyma'r math o wybodaeth sydd gennym:

- ffurflen gais a geirdaon
- contract eich cyflogaeth ac unrhyw welliannau iddo
- gohebiaeth gyda chi neu amdanoch, er enghraifft, llythyrau atoch am godiad cyflog neu, ar eich cais, lythyr at eich darparwr morgais i gadarnhau swm eich cyflog
- gwybodaeth sy'n ofynnol o ran y gyflogres, IR35, budd-daliadau a threuliau
- manylion cyswllt a manylion cyswllt mewn argyfwng
- cofnodion o'ch gwyliau, eich salwch, eich mamolaeth, eich absenoldeb rhiant a rennir a'ch absenoldeb arall
- gwybodaeth ofynnol ar gyfer monitro cyfle cyfartal (yr adroddir amdano bob tro'n ddienw)
- gwybodaeth ofynnol am fonitro safonau'r Gymraeg
- cofnodion am hanes eich gyrfa, megis cofnodion hyfforddiant, gwerthusiadau, mesurau perfformiad eraill a, lle y bo'n briodol, wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cofnodion disgyblu a chwynion. Mae ein Polisi am y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yma
- buddiannau datganedig ar eich cyfer chi'ch hun ac aelodau o'ch teulu

Seilir y cyfnodau cadw gwybodaeth a amlinellir yn y meysydd uchod ar y cyfnodau cadw a argymhellir gan yr Archifau Cenedlaethol. Maent i'w gweld yn ein Polisi Rheoli Cofnodion.

Wrth gwrs y cyfeirir atoch yn ddigon anochel mewn llawer o gofnodion a dogfennau'r Cyngor a gynhyrchir gennych a chan eich cydweithwyr yn eu gwaith bob dydd. Fodd bynnag, ac eithrio eich enw a'ch manylion cyswllt, mae'n annhebygol y bydd unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch. Dylech gyfeirio at bolisi'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol Prydain (Diogelu Data) sydd ar gael yn y Knowledgebase neu oddi wrth y Rheolwr Cynllunio, Perfformio a Chydymffurfio.

Lle bo angen, gallwn gadw gwybodaeth am eich iechyd, a allai gynnwys eich rhesymau dros absenoldeb ac adroddiadau a nodiadau oddi wrth eich meddyg teulu. Defnyddir y wybodaeth hon i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau iechyd a diogelwch ac iechyd galwedigaethol, sef ystyried sut y gall eich iechyd effeithio ar eich gallu i wneud eich swydd ac a fyddai unrhyw addasiadau i'ch gwaith yn briodol. Rhaid inni gael y data hwn hefyd i weinyddu a rheoli tâl salwch statudol a thâl salwch y cwmni.

Myn Deddf Cydraddoldeb (2010) ein bod yn cyflwyno adroddiad ar nodweddion gwarchodedig. Pan broseswn gategorïau arbennig o wybodaeth sy'n ymwneud â'ch nodweddion gwarchodedig megis:

- oedran
- rhyw
- statws priodasol neu bartneriaeth sifil
- anabledd
- tarddiad hiliol neu ethnig
- crefydd
- cyfeiriadedd rhywiol
- trawsrywedd
- mamolaeth/bod yn feichiog

Cawn bob amser eich caniatâd penodol ar gyfer y gweithgareddau hyn oni bai nad yw'n ofynnol dan y gyfraith neu fod angen y wybodaeth i ddiogelu eich iechyd mewn argyfwng.

Monitrwn ddefnydd cyfrifiadurol, fel y disgrifir yn ein cyfres o bolisïau TGCh, sydd ar gael ar y fewnrwyd. Rydym hefyd yn cadw cofnodion o'ch oriau gwaith drwy gyfrwng eich taflenni amser Cascade. I'n staff, monitrwn eu defnydd o'n cyfrifiaduron fel y dywed ein polisïau TGCh sydd ar gael ar ein mewnrwyd. Monitrir taflenni amser gan y rheolwr llinell a chaiff adroddiadau eu creu gan adnoddau dynol at ddibenion monitro credyd a diffyg mewn oriau. Lle cwyd materion, cânt eu hadrodd wrth yr uwch dîm arwain. Cyflwynir adroddiadau dienw i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol hefyd yn rhan o adroddiadau dienw am wybodaeth reoli adnoddau dynol.

Datgelwn wybodaeth amdanoch i drydydd partïon dim ond os yw'r gyfraith yn mynnu ein bod yn ei wneud neu pan fo'n rhaid inni ei wneud i ddiwallu ein dyletswyddau cytundebol ichi. Er enghraifft, efallai y bydd arnom angen trosglwyddo gwybodaeth benodol i'n

gweinyddwyr pensiwn, i Gyllid a Thollau EM o ran casglu trethi, y Swyddfa Ystadegau Gwladol neu Archwilydd Cyffredinol Cymru o ran gwaith archwilio ac astudiaethau ac mewn ymarferion paru data i atal a chanfod twyll. Darperir y data dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol Prydain, os ydym yn bwriadu prosesu eich data personol at ddiben arall heblaw'r un gwreiddiol, darparwn wybodaeth am y diben hwnnw ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall ichi a gofynnwn am eich caniatâd os yw'n briodol i wneud hynny (h.y. lle nad oes ei eisiau dan y gyfraith neu'n gydnaws â'r diben gwreiddiol).

## 3. Arian grant

Ni yw'r corff cyhoeddus sy'n gyfrifol am ariannu a datblygu celfyddydau Cymru. Ein gweledigaeth yw Cymru Greadigol lle mae'r celfyddydau wrth wraidd bywyd a llesiant y genedl.

Un o'r ffyrdd rydym ni'n gwneud hyn yw drwy ddosbarthu arian ar gyfer gweithgarwch celfyddydol i weithwyr a sefydliadau celfyddydol sydd naill ai yng Nghymru neu sy'n darparu budd diwylliannol a cyhoeddus i Gymru.

### Arian y Loteri

Bydd angen ichi gofrestru ar ein porth ar-lein i ymgeisio am arian. Mae'r wybodaeth bersonol y byddwn ni'n ei chasglu ar hyn o bryd yn cynnwys eich enw, manylion cyswllt (gan gynnwys cyfeiriad e-bost), manylion banc a gwybodaeth monitro cydraddoldeb (bydd hyn yn cael ei gadw ar wahân i'ch cais a chaiff ei ddefnyddio at ddibenion monitro ystadegol yn unig a'i adrodd ar ffurf ddienw). Os ydych chi'n gweithredu fel Gweinyddydd ar ran sefydliad sydd wedi'i gofrestru ar ein porth ar-lein, gallwch chi hefyd roi manylion cyswllt ychwanegol ar gyfer aelodau eraill o staff yn eich sefydliad fel y bo'n briodol.

Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol Prydain caiff y data ei goladu a'i brosesu yn seiliedig ar lunio neu gyflawni contract â chi. Mae angen inni hefyd brosesu eich data i ymrwymo i gontract gyda chi. At ddibenion y Polisi Preifatrwydd, bydd eich cais am grant ac, os yw'n llwyddiannus, eich cynnig grant yn cael ei ystyried yn gontractau.

Ped ewch at gam ymgeisio, dyma'r wybodaeth bersonol y gallwn ei chasglu yn rhan o'r broses llunio a chyflwyno a hefyd y data a gasglwn wrth gofrestru a nodi uchod gan gynnwys:

Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os yw'n briodol i'r gweithgarwch y grant cysylltiedig (gweler Polis ar wahân ar gyfer y trefniadau prosesu), CV ac unrhyw wybodaeth bersonol a allai gael ei rhoi mewn dogfennau ategol a ddarparwch ar gyfer eich cais.

Gall hyn gynnwys manylion cyswllt personol a gwybodaeth am yrfaoedd ar gyfer pobl eraill sy'n ymwneud â'ch cynnig yr ydych wedi'i gyflwyno. Gellir rhannu'r wybodaeth yma â phobl enwebedig eraill (er enghraifft, Cydweithwyr Celfyddydol) at ddibenion asesu eich cais. Mewn achosion felly, bydd y bobl enwebedig eraill yn gweithredu dan gyfarwyddyd Cyngor Celfyddydau Cymru a byddant wedi'u hymrwymo gan ei Bolisi Diogelu Data. A ninnau'n ddosbarthwr arian cyhoeddus, gan gynnwys arian y Loteri Genedlaethol, rhaid inni gyhoeddi manylion y grantiau a roddwn a'u rhannu â'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Yr unig wybodaeth bersonol a rannwn â'r Adran fydd enw, cod post ac Awdurdod Lleol yr ymgeisydd. Cyfyngwn y wybodaeth bersonol a gyhoeddwn ar ein gwefan i enw'r ymgeisydd ac Awdurdod Lleol y prosiect.

Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol Prydain caiff y data hwn ei goladu a'i brosesu yn seiliedig ar lunio neu gyflawni contract â chi.

Gwneir ceisiadau ar-lein drwy ein gwefan. Cydymffurfia darparwyr ein meddalwedd ymgeisio am grant yn llwyr â gofynion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol Prydain. Daliant fanylion cyfrif defnyddiwr mewn fformat wedi'i hamgryptio.

## Pwrpas a defnydd

Defnyddir y wybodaeth hon i brosesu eich cais ac, os llwydda, i weinyddu eich grant a'r taliadau sy'n gysylltiedig drwy gydol oes y grant gan gynnwys cyflwyno a derbyn adroddiad diweddu a thaliadau terfynol.

## Amserlen

Cedwir holl wybodaeth bersonol am eich cais am 6 blynedd o ddiwedd eich prosiect, neu os gwrthodir eich cais neu os tynnir eich cais yn ôl, 6 blynedd o'r dyddiad hwn. Wedyn caiff ei dinistrio. Mae'n bosibl y daliwn ddata grant wedi'i grynhoi ar ôl y cyfnod yma at ddibenion dadansoddi ystadegau ac adrodd.

## Sefydliadau ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru

Mae aelodau o'r Portffolio yn gleientiaid sy'n cael grantiau rheolaidd, a ddyfernir yn flynyddol, tuag at eu gweithgareddau craidd. Ein buddsoddiad yn y portffolio yw un o'r prif ffyrdd yr anelwn at greu sector celfyddydol bywiog a chreadigol gan gyflawni'r blaenoriaethau strategol a amlinellir yn ein Cynllun corfforaethol y cytunwyd yn ei gylch â Llywodraeth Cymru.

Gosodwn ddisgwyliadau ehangach ochr yn ochr â nifer o dargedau cyffredin ar gyfer holl aelodau o'r portffolio. Esbonia'n llawlyfr sut rydym yn rheoli ein perthynas gyda'r portffolio. Drwy'r ddolen llawlyfr cewch fynediad hefyd i'r templedi i gyflwyno gwybodaeth arnynt yn ystod pob blwyddyn am waith a pherfformiad y sefydliad.

Wrth reoli ein portffolio, gallem gasglu a phrosesu'r wybodaeth bersonol ganlynol: Enw, cyfeiriad, manylion cyswllt, manylion banc, manylion ariannol, CVau cydweithwyr,

dogfennau Bwrdd a dogfennau llywodraethu, gohebiaeth gyffredinol a data monitro cyfle cyfartal ar gyfer staff ac aelodau o'r Bwrdd (bydd adrodd am gydraddoldebau bob amser yn ddienw ac ni fydd yn enwi unigolion).

Gellir rhannu'r wybodaeth yma â phobl enwebedig eraill (er enghraifft, Cydweithwyr Celfyddydol) at ddibenion asesu eich cais. Mewn achosion felly, bydd y bobl enwebedig eraill yn gweithredu dan gyfarwyddyd Cyngor Celfyddydau Cymru a byddant wedi'u hymrwymo gan ei Bolisi Diogelu Data. Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol, caiff y data hwn ei goladu a'i brosesu yn seiliedig ar lunio neu gyflawni contract â chi.

## Pwrpas a defnydd

Defnyddir y wybodaeth hon i brosesu eich cytundebau ariannu blynyddol a gweinyddu eich grant a'r taliadau cysylltiedig.

## Amserlen

Cedwir yr holl wybodaeth am eich cytundeb ariannu blynyddol am 6 blynedd o ddiwedd y flwyddyn ariannol gysylltiedig a chaiff ei dinistrio ar ôl hynny.

Anfonir yr arolwg o'r portffolio bob chwe mis at bob un o'r 67 aelod o'r portffolio. Yn bennaf, mae'r arolwg yn casglu data am nifer y digwyddiadau celfyddydol a gynhelir a'r mynychiadau a wneir iddynt. Adroddir am unrhyw wybodaeth bersonol a gesglir yn rhan o'r ymarfer hwn ar ffurf ddienw.

# 4. Noson Allan

## Gohebiaeth hyrwyddwr

Ar hyn o bryd rydym yn dal eich data oherwydd rydych wedi gwneud cais i'r cynllun Noson Allan i gynnal digwyddiad.

Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol Prydain caiff y data hwn ei goladu a'i brosesu yn seiliedig ar lunio neu gyflawni contract â chi. Byddwn yn cadw'r data hwn ar gyfer tair blynedd ariannol ar ôl i'r digwyddiad gael ei gynnal. Ar ôl yr amser hwn, os nad ydych wedi gwneud cais i ddefnyddio cynllun Noson Allan eto, byddwn yn dileu'r wybodaeth archebu a manylion cyswllt yr hyrwyddwr. Croeso wrth gwrs i'ch sefydliad wneud cais eto i'r cynllun yn y dyfodol ond bydd angen iddo ailgofrestru os nad ydych wedi defnyddio'r cynllun am fwy na thair blynedd.

Wrth ymgeisio/cofrestru, mae'n bosibl ichi nodi y gellid cynnig eich manylion cyswllt i berfformwyr sydd â diddordeb mewn cynnal taith drwy Gymru. Rhennir eich data dim ond gyda'r perfformwyr os ticiasoch y gellir ei rannu. Os ydych yn dymuno newid hyn, mewngofnodwch drwy eich hafan hyrwyddwr ar www.nosonallan.org.uk a newidiwch y gosodiadau hyn neu cysylltwch â Swyddfa Noson Allan ar 02920 441340 ymholiad@nosonallan.org.uk gydag unrhyw ymholiadau.

## Eich data

Ni chasglwn unrhyw ddata nad yw'n ymwneud â busnes megis dyddiad geni, neu rif adnabod y llywodraeth. Ni chasglwn ychwaith ddata personol sensitif oddi wrth ymwelwyr â'n gwefan neu danysgrifwyr i'n rhestri postio.

## Pwrpas a defnydd

Prosesa Noson Allan/y Cyngor eich gwybodaeth i weinyddu'r cais a gawsom gennych.

Gall perfformwyr sydd wedi cofrestru cyfrif ar ein gwefan ddefnyddio'r wybodaeth yn y gronfa ddata hyrwyddwyr i gysylltu ag unigolion yn unol â'u dewisiadau cysylltu datganedig. Nid yw cronfa ddata gyswllt yr hyrwyddwr ar gael i'r cyhoedd ac mae dim ond yn hygyrch gan ddeiliaid cyfrif.

Gall unrhyw un sy'n ymweld â'n gwefan chwilio am fanylion cyswllt perfformwyr sydd wedi cofrestru cyfrif gyda Noson Allan. Bydd y chwiliad yn dychwelyd gwybodaeth yn unol â'i ddewisiadau.

## 'Beth sy'n digwydd'

Byddwn yn cyhoeddi rhestr fisol "Beth sy'n digwydd" i unrhyw un sydd wedi tanysgrifio i'r gwasanaeth hwn drwy gyflwyno ei enw a chyfeiriad ei e-bost ar ein tudalen tanysgrifio i'n gwefan

Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol caiff y data hwn ei goladu a'i brosesu yn seiliedig ar gydsyniad.

Gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg drwy ddewis y ddolen datdanysgrifio ar waelod e-byst Beth sy'n Digwydd. Os ydych am newid eich manylion cyswllt a'ch dewisiadau ar y rhestr hon, rhaid ichi ddatdanysgrifio ac ailgyflwyno eich dewisiadau diweddaraf.

Gall unigolion sy'n ymweld â thudalen Beth sy'n Digwydd ddefnyddio'r wybodaeth gyswllt docyn, lle cyhoeddir hon, er mwyn cysylltu â'r unigolyn ynghylch ei ddigwyddiad.

## Gohebiaeth perfformwyr

Ar hyn o bryd rydym yn dal eich data oherwydd ichi gael eich archebu am ddigwyddiad Noson Allan neu cofrestrasoch eich gwybodaeth ar ein gwefan.

Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol Prydain caiff y data hwn ei goladu a'i brosesu yn seiliedig ar lunio neu gyflawni contract â chi.

Byddwn yn cadw data hwn am dair blynedd ariannol ar ôl i'r digwyddiad gael ei chynnal neu cofrestrasoch gyda Noson Allan. Ar ôl yr amser hwn os na chawsoch eich ail-archebu drwy'r cynllun neu os na ddiweddarasoch eich manylion, dilëwn y wybodaeth archebu a'ch manylion cyswllt pherfformiwr o'n cronfa ddata. Ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw archebion yn y dyfodol a allai ddigwydd - asesir y rhain yn eu rhinwedd eu hunain. Wedyn mae croeso ichi ailymgeisio i'r cynllun yn y dyfodol ond bydd angen ichi ailgofrestru os yw hyn yn hwy na thair blynedd yn ôl.

Os cofrestrasoch gyfrif gyda Noson Allan, efallai eich bod wedi nodi y gellir sicrhau bod eich manylion cyswllt ar gael i unrhyw un sy'n ymweld â'n gwefan. Gan ddibynnu ar y dewisiadau a wnaethoch, gallem rannu eich enw, eich ffôn, eich e-bost a'ch cyfeiriad. Os dymunwch newid hyn, gallwch fewngofnodi drwy eich hafan perfformiwr ar www.nosonallan.org.uk a newid y gosodiadau hyn neu cysylltwch â Swyddfa Noson Allan yn 02920441340 ymholiad@nosonallan.org.uk gydag unrhyw ymholiadau.

Erys sioeau yn weladwy o ran chwilio amdanynt o'r wefan, yn seiliedig ar ddyddiadau sydd ar gael. Os nad yw'r sioe ar gael mwyach, newidiwch y dyddiadau ar gael i ddyddiadau yn y gorffennol – bydd hyn yn golygu nad yw'n ymddangos wrth chwilio am geisiadau.

## Eich Data

Nid ydym yn casglu unrhyw ddata nad yw'n ymwneud â busnes megis dyddiad geni, neu rif adnabod y llywodraeth, ac nid ydym yn casglu data personol sensitif oddi wrth ymwelwyr â'n gwefan neu danysgrifwyr i'n rhestri postio.

## Pwrpas a defnydd

Mae Noson Allan/y Cyngor yn prosesu eich gwybodaeth i weinyddu'r cais a gawsom i'ch archebu.

Gall perfformwyr sydd wedi cofrestru cyfrif ar ein gwefan ddefnyddio'r wybodaeth yn y gronfa ddata hyrwyddwyr i gysylltu ag unigolion yn unol â'u dewisiadau cysylltu datganedig. Nid yw cronfa ddata gyswllt yr hyrwyddwr ar gael i'r cyhoedd ac mae dim ond yn hygyrch gan ddeiliaid cyfrif.

Gall unrhyw un sy'n ymweld â’n gwefan chwilio am fanylion cyswllt perfformwyr sydd wedi cofrestru cyfrif gyda Noson Allan. Bydd y chwiliad yn dychwelyd gwybodaeth yn unol â’i ddewisiadau.

## 5. Y Cynllun Casglu

Mae'r Cynllun Casglu yn wasanaeth a weithredir gan y Cyngor. Drwyddo gall unigolion fenthyg arian (yn ddi-log) tuag at brynu gwaith oddi wrth orielau yng Nghymru sydd yn aelodau o'r cynllun.

## Orielau sy'n aelodau

Cofrestrir orielau'n aelodau gyda'r cynllun. Dim ond aelodau a all weithredu'r cynllun. Gall orielau sy'n gweithredu'n unig fasnachwyr, partneriaethau neu gwmnïau ymgeisio i fod yn aelod o'r cynllun, cyn belled â bod unrhyw unig fasnachwr dros ei 18 oed.

Bydd unrhyw oriel sydd am wneud cais i fod yn aelod lenwi cais sy'n casglu data personol, gan gynnwys enw, manylion cyswllt, cyfeiriad a manylion cyfrif banc. Drwy gyflwyno cais i ddod yn aelod o'r cynllun, mae oriel a'i chyfarwyddwyr, ei rheolwyr, ei phwyllgorau a'i staff am danysgrifio i'r gwasanaeth a fydd, os caiff ei derbyn gan y Cyngor, yn arwain at ymrwymo i gontract. Bernir y bydd derbyn wedi digwydd, a bydd aelodaeth yr oriel yn dechrau, pan gydlofnoda enwebai o'r Cyngor ffurflen gais yr oriel a rhoi gwybod i'r oriel fod ei chais wedi llwyddo.

Wrth dderbyn cais, bydd y Cyngor yn gwneud ymholiadau rhesymol i ymgeiswyr (lle bo'r ymgeisydd yn unig fasnachwr), i bartneriaid (lle bo'r oriel yn bartneriaeth) ac i ymgeisydd a'i gyfarwyddwyr a'i gyfranddalwyr (lle bo'r ymgeisydd yn gwmni). Gwna hyn i sicrhau nad yw'r un o'r uchod yn fethdalwyr heb eu rhyddhau, cyfarwyddwyr wedi'u hanghymwyso neu bobl a chanddynt ddyfarniadau anfoddhaol gan lys sirol neu rai a chanddynt gollfarnau gan yr heddlu a fyddai, ym marn y Cyngor, yn effeithio'n wael ar weinyddiaeth y cynllun a pheryglu ei ewyllys da.

Rhaid i aelod o'r cynllun gyflwyno cyfrifon archwiliedig i'r Cyngor ar gais. Caiff pob gwybodaeth ei thrin yn gyfrinachol.

Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol coledir a phrosesir yr holl ddata cysylltiedig yn seiliedig ar ddiwallu neu baratoi contract.

Caiff aelod dynnu'n ôl ei aelodaeth ar unrhyw adeg drwy roi tri mis o rybudd ymlaen llaw, yn ysgrifenedig, i'r Cyngor.

Daliwn a chynhaliwn yn ddiogel y wybodaeth a gawn oddi wrth oriel yn rhan o'i haelodaeth drwy gydol ei haelodaeth, ac am saith mlynedd ariannol saith wedyn ar ôl i'w haelodaeth ddod i ben. Ar ôl y cyfnod hwn, dinistrir y manylion.

### Unigolion preifat

Dim ond unigolion preifat a all ymgeisio am fenthyciad gan y cynllun. Yn rhan o'r cais, casglwn ddata personol, gan gynnwys enw, manylion cyswllt, cyfeiriad a manylion cyfrif banc. Ar ôl derbyn cais, bydd y Cyngor yn holi asiantaeth gredyd ynghylch unrhyw ddyfarniadau llys sirol neu broblemau sy'n hysbys. Os cwyd problem o ganlyniad i'r

ymholiad credyd, ysgrifenna’r Cyngor yn uniongyrchol at y prynwr a dweud na fydd modd parhau gyda'r cais (caiff yr aelod hefyd gopi o'r llythyr). Lle bo'r benthyciad am £1,000 neu ragor, gellid gofyn am eirda gan fanc y prynwr.

Drwy gyflwyno cais i brynu celfwaith cymwys dan y cynllun, gwna’r prynwr gynnig i danysgrifio i'r cynllun a fydd, os caiff ei dderbyn gan y Cyngor, yn arwain at ymrwymo i gontract.

Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol Prydain coledir a phrosesir yr holl ddata cysylltiedig yn seiliedig ar ddiwallu neu baratoi contract.

Cedwir ceisiadau am saith mlynedd ariannol o gau/ad-dalu’r benthyciad yn llawn.

# 6. Caffael - contractau a chyflenwyr

## Contractau

A ninnau'n gorff cyhoeddus, mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i'r rheolau caffael cyhoeddus a rheoliadau cysylltiedig Prydain.

Gallwn gaffael gwasanaethau a nwyddau mewn nifer o ffyrdd sy'n briodol i werth y nwydd neu'r gwasanaeth a geisir. Gall y rhain gynnwys:

- Mynd yn uniongyrchol at gyflenwyr posibl ar gyfer dyfyniadau
- Hysbysebu drwy'n gwefan, ein cylchlythyrau a'n cyfryngau cymdeithasol
- Gwahoddiad i dendro drwy GwerthwchiGymru
- Drwy fframweithiau sefydledig a Dod o Hyd i Dendr

Mae casglu a choladu gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn digwydd dan ein gweithgareddau caffael o ran diwallu neu baratoi contract a'i rwymedigaethau cysylltiedig ac yn unol â thelerau'r contract cysylltiedig. Cynhwysir ystyriaethau Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a'i rwymedigaethau yn ein gwahoddiad i dendro a'n templedi contract. Cyfrifoldeb y parti dan gontract yw prosesu, rheoli a gwaredu unrhyw wybodaeth bersonol a gesglir dan y contract yn unol â'r contract ac â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Dyma'r wybodaeth bersonol y gallem ei chasglu:

- Enw
- Cyfeiriad (post ac e-bost)
- Rhifau cyswllt
- CV
- Manylion banc
- Hanes ariannol a gwiriadau
- Gwiriadau cofnodion troseddol
- Data monitro cydraddoldeb

Dan ganllawiau cyfredol yr Archifau Cenedlaethol, prosesir a chedwir gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, sy'n ymwneud â gweithgarwch caffael, am gyfnod y contract ac am 6 blynedd o ddiwedd y contract. Ar ôl y cyfnod hwn, dinistrir y manylion.

## Gohebiaeth cyflenwr

Ar hyn o bryd daliwn eich data oherwydd rydych wedi ein cyflenwi â nwyddau neu wasanaethau.

Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol Prydain coledir a phrosesir y data hwn yn seiliedig ar ddiwallu neu baratoi contract.

Cadwn y data hwn am saith mlynedd ariannol ar ôl i'r trafodyn olaf ddigwydd. Ar ôl y cyfnod hwn os na chyflenwch nwyddau neu wasanaethau eto, caewn eich cyfrif cyflenwr a dileu'r wybodaeth a gedwir. Os cyflenwir nwyddau neu wasanaethau gennych chi neu'ch sefydliad yn y dyfodol, bydd yn rhaid ichi ddilyn y gweithdrefnau gofynnol i ymsefydlu'n gyflenwr newydd.

## Eich Data

Ni chasglwn unrhyw ddata nad yw'n ymwneud â busnes megis dyddiad geni, neu rif adnabod y llywodraeth, ac ni chasglwn ddata personol sensitif oddi wrth ymwelwyr â'n gwefan neu danysgrifwyr i'n rhestri postio.

## Pwrpas a defnydd

Proseswn eich gwybodaeth i allu prosesu anfonebau ac unrhyw ohebiaeth gysylltiedig a gawn oddi wrthych.

Datgelwn wybodaeth amdanoch i drydydd partïon dim ond os yw'r gyfraith yn mynnu ein bod yn ei wneud neu pan fo'n rhaid inni ei wneud i ddiwallu ein dyletswyddau cytundebol ichi. Er enghraifft, efallai y bydd arnom angen trosglwyddo gwybodaeth benodol i'n gweinyddwyr pensiwn, i Gyllid a Thollau EM o ran casglu trethi, y Swyddfa Ystadegau Gwladol neu Archwilydd Cyffredinol Cymru o ran gwaith archwilio ac astudiaethau ac mewn ymarferion paru data i atal a chanfod twyll. Darperir y data dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

# 7. Ymchwil

A ninnau'n ddarparwr ystadegau swyddogol, llywir ystadegau'r Cyngor gan god arfer ystadegau swyddogol 1 Awdurdod Ystadegau Prydain. Mae'r cod yn berthnasol i holl gyrff Prydain sy'n gyfrifol am ystadegau swyddogol ac mae cydymffurfio â'r cod yn ofyniad statudol. Mae'r cod yn sicrhau bod ystadegau swyddogol yn diwallu anghenion defnyddwyr a bod yr ystadegau yn cael eu cynhyrchu, eu rheoli a'u dosbarthu i safon uchel. Felly anelwn at integreiddio'r cod yn ein holl weithgarwch ymchwil a gwerthuso.

Portha ystadegau'r tîm ymchwil a gwerthuso benderfyniadau a wneir gan y Cyngor, Llywodraeth Cymru, busnesau a'r gymuned ehangach. Mae ystadegau o werth dim ond os ydynt o gymorth i ddefnyddwyr fynd i'r afael â'u pryderon a'u cwestiynau.

Casgla'r tîm ymchwil a gwerthuso wybodaeth bersonol ac amhersonol yn rheolaidd a hynny ar sail prosiectau unigol.

Dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol Prydain, y caiff yr holl ddata cysylltiedig ei goladu a'i brosesu ar sail cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, lle mae'n angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon (neu rai pobl eraill) ac nad yw eich buddiannau a'ch hawliau sylfaenol yn diystyru'r buddiannau yna. Gwarchodwn ddiogelwch ein data i ddiwallu rhwymedigaethau cyfreithiol a chadw ein gwarant na chaiff unrhyw ystadegau eu cynhyrchu sy'n debyg o adnabod unigolyn neu sefydliad unigol oni bai y cafwyd cytundeb ymlaen llaw â hwy. Ystyriwn hynny a hefyd cymerwn i ystyriaeth y cawn y gwerth mwyaf o'r data a gasglwn ac a ddaliwn at ddibenion ystadegol.

## Rheoli datgelu ystadegol

Defnyddia'r tîm ymchwil a gwerthuso reolaeth ddatgelu i sicrhau na ellir adnabod unigolion neu sefydliadau unigol o'r data ystadegol. Felly ni ddatgelir gwybodaeth gyfrinachol am berson neu sefydliad ac ni ellir cyfuno allbynnau o'r un ffynhonnell, neu allbynnau o wahanol ffynonellau, i ddatgelu gwybodaeth am unigolyn neu sefydliad oni bai bod cytundeb wedi'i gyrraedd cyn rhyddhau'r data ystadegol.

Cuddir yr holl ddata ystadegol sy'n cynnwys gwybodaeth sylfaenol gyda'r cyfrif o lai na thri mewn cyhoeddiadau oni roddwyd caniatâd ymlaen llaw gan y cyflenwr. Adolygir ac asesir gwerthoedd o dri a llai o ran datgelu a lle bo hynny'n berthnasol bydd y data hwn yn cael ei guddio er mwyn osgoi gallu adnabod unigolion neu sefydliadau unigol. Os yw'n briodol byddai talgrynnu celloedd i luosrif o set sylfaenol (e.e. 5) yn ychwanegu ansicrwydd i wir werth celloedd bychain. Disgrifir hyn yn y metadata a ryddheir gyda'r cyhoeddiad er mwyn osgoi dryswch a chamddehongli.

## Mynediad at ddata

Rhaid sefydlu cytundebau rhannu data neu fynediad at ddata cyn rhoi i drydydd partïon a enwir fynediad at wybodaeth gyfrinachol. Dogfennau ysgrifenedig yw'r cytundebau hyn a rhaid iddynt bennu'n fanwl gywir y data'n a'r newidynnau a ddarperir a natur y dadansoddiad lle cânt eu defnyddio.

## 8. Cysylltiadau

### Casglu gwybodaeth

Rydych wedi rhoi inni eich manylion cyswllt er mwyn tanysgrifio i'n rhestr bostio neu uwchlwytho gwybodaeth hyrwyddol am eich digwyddiadau. Dyma'r wybodaeth a roesoch:

- Enw
- Cwmni (os yw'n berthnasol)
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad e-bost
- Dewis iaith
- Manylion y gweithgareddau/digwyddiadau e.e. tanysgrifio i restr bostio, manylion o'r gweithgarwch i'w hyrwyddo drwy'r Cyfeiriadur Celfyddydol

Rhaid i ymwelwyr sy'n dymuno llwytho manylion digwyddiad ar ein cyfeiriadur celfyddydol greu cyfrif yn gyntaf. Gwarchodir y cyfrif hwn gan gyfrinair.

Dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol Prydain coledir a phrosesir y data hwn yn seiliedig ar gydsyniad.

Ni chasglwn unrhyw wybodaeth bersonol oddi wrth ymwelwyr â'n gwefan nad ydynt yn creu cyfrif gyda ni neu danysgrifio i un o'n rhestri post.

Ni chasglwn unrhyw ddata nad yw'n ymwneud â busnes megis dyddiad geni, neu rif adnabod y llywodraeth. Ni chasglwn ychwaith ddata personol sensitif oddi wrth ymwelwyr â'n gwefan neu danysgrifwyr i'n rhestri postio.

### Pwrpas a defnydd

Proseswn eich gwybodaeth at ddibenion postio uniongyrchol, seiliedig ar y wybodaeth a'r dewisiadau a nodasoch yn ystod y broses danysgrifio. Gall ymwelwyr â'n gwefan ddefnyddio'r wybodaeth yn y Cyfeiriadur Celfyddydol i gysylltu ag unigolion drwy eu manylion cyswllt cyhoeddedig, lle mae'r rhain (e.e. ar gyfer rhestri hyrwyddol ar gyfer digwyddiadau) er mwyn cysylltu â'r unigolyn am y digwyddiad.

### Amserlen

Ymdrechwn i ddarparu'r wybodaeth gywiraf bosibl. Felly, ceisiwn ailddilysu cywirdeb yr holl wybodaeth ar sail barhaus a gwirio'r dewisiadau a manylion cyswllt tanysgrifwyr bob

blwyddyn. Gwnawn hyn drwy e-bostio ein cysylltiadau drwy'r manylion a ddelir. Tynnir data y cafwyd ei fod yn anghywir neu'n hen o'r gronfa ddata.

## Mynediad a hawliau optio allan

O ran y wybodaeth sydd gennym amdanoch, mae gennych hawliau mynd ati, ei chywiro, ei dileu a'i chyfyngu. Mae gennych hefyd yr hawl i wrthwynebu ei phrosesu. Gallwch weithredu'r hawliau hyn drwy naill ai datdanysgrifio ar unrhyw adeg o'r rhestr bostio drwy glicio ar y ddolen yn nhroedyn unrhyw e-bost, neu drwy gysylltu â'r Cyngor gwefan@celf.cymru . Cewch ofyn am fynediad at y wybodaeth sydd gennym amdanoch. Cewch hefyd ofyn am gywiro, diwygio neu ddileu unrhyw wybodaeth amdanoch sy'n anghywir a gallwch optio allan o'r gronfa ddata'n llwyr. Bydd y Cyngor yn trin ceisiadau am fynd at wybodaeth, ei chywiro, ei diwygio neu ei dileu yn unol â'i bolisïau mewnol a'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol. Os ydych o'r farn nad ydym wedi cydymffurfio â'ch cais, mae gennych hawl i gyflwyno cwyn i'r awdurdod goruchwylio priodol.

Cyhoeddwyd y fersiwn yma o'r Polisi Preifatrwydd yn Ionawr 2021 ac adolygir ef bob dwy flynedd neu'n gynharach yn ôl y gofyn.